Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Public Services Board

**1.30pm, Dydd Iau 20 Medi 2018**
**Pencadlys Heddlu Dyfed-Powys, Llangynnwr, Caerfyrddin**

# COFNODION

| **Yn bresennol** | |
|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Barry Liles (Cadeirydd) | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Huwel Manley | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Rob Quin | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Y Cynghorydd David Jenkins | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Andrew Cornish | Coleg Sir Gâr |
| Julian Atkins | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| Ros Jervis | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Sarah Jennings | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Anna Bird | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Marie Mitchell | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr |
| Jonathan Feild | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |

| **Yn gwasanaethu** | |
|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Gwyneth Ayers | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Kate Thomas | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Sophie Rees | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Y Cynghorydd Handel Davies | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Jo Creasey | Cydgysylltydd Llesiant Rhanbarthol |
| Martyn Palfreman | Cyngor Sir Caerfyrddin |

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

| **Ymddiheuriadau** | |
|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Y Cynghorydd Emlyn Dole | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Wendy Walters | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Y Cynghorydd Jan Curtice | Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Yr Athro Jean White | Llywodraeth Cymru |
| Uwcharolygydd Gary Mills | Heddlu Dyfed-Powys |
| Carys Morgans | Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Christine Harley | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |

## 2. Cofnodion a Materion yn Codi: 12 Gorffennaf 2018

- Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu:
- Cam Gweithredu 3 – roedd trafodaeth gychwynnol wedi cael ei chynnal gyda'r Prif Arolygydd Yelland a bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan y Grŵp Cyflawni Ymyriadau Cynnar. Nodwyd mai'r Prif Arolygydd Dyfed Bolton yw arweinydd newydd yr heddlu ar gyfer Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae safleoedd yn cael eu nodi gan Gyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a chynhelir rhagor o drafodaethau.
- Cam Gweithredu 5 - cytunwyd y dylai aelodau'r BGC ddod â syniadau ar gyfer prosiectau perthnasol i gyfarfod y BGC ym mis Tachwedd i'w trafod, ac y dylid gwahodd swyddog datblygu cymunedol Antur Teifi i'r cyfarfod hwn.
- Cam Gweithredu 6 – roedd cynrychiolwyr wedi'u nodi, fel oedd yn briodol.
- Cam Gweithredu 8 – byddai cynrychiolydd cyfathrebu yn cael ei gytuno yn y cyfarfod ar ôl y BGC.
- Cam Gweithredu 9 – roedd papur wedi'i gyflwyno ynghylch Caffael Bwyd Lleol a byddai hwn yn cael ei ystyried fel rhan o'r eitem ynghylch y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Cynllun Llesiant ar yr agenda.
- Cam Gweithredu 10 – fel y cytunwyd, bydd y BGC hwn yn cynnal cyfarfod rhanbarthol nesaf y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a gofynnwyd i'r aelodau gyflwyno eitemau ar gyfer yr agenda.
- Cam Gweithredu 11 – cadarnhawyd bod Academi Wales yn cynnal digwyddiad rhanbarthol ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o'r enw 'Datblygu Perthnasoedd Proffesiynol drwy Gydweithio ac Ymddiriedaeth' ar 27 Tachwedd. Bydd y sesiwn yn cael ei gynnal fel rhan o Wythnos Arweinyddiaeth Ranbarthol ac mae'n agored i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ardal Dyfed Powys, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.
- Dywedwyd y byddai adroddiad y Senedd, yn dilyn Ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, ar gael o gwmpas adeg y Nadolig.
- Cam Gweithredu 12 – byddai cyfarfod yn cael ei drefnu i symud ymlaen o ran y cam gweithredu hwn sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio.
- Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.
- Croesawyd Andrew Cornish a Jo Creasey i'r cyfarfod.

| **Y CAMAU GWEITHREDU** | |
|---|---|
| Nodi prosiectau sylweddol a allai elwa o gyllid fferm wynt Fforest Brechfa ac a fyddai'n helpu i gyflawni amcanion y Cynllun Llesiant, i'w hystyried yng nghyfarfod y BGC ym mis Tachwedd 2018. | PAWB |
| Gwahodd Aled Vaughan-Owen, swyddog datblygu cymunedol, i gyfarfod y BGC ym mis Tachwedd 2018 i drafod cynigion prosiect fferm wynt Fforest Brechfa. | Tîm Cymorth y BGC |
| Dosbarthu gwybodaeth am y sesiwn datblygu rhanbarthol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, sef *'Datblygu Perthnasoedd Proffesiynol drwy Gydweithio ac Ymddiriedaeth'* sy'n cael ei gynnal gan Academi Wales ar 27 Tachwedd 2018 yn Y Llwyfan, Caerfyrddin. | Gwyneth Ayers |
| Cytuno ar gynrychiolydd cyfathrebu i'w wahodd i gyfarfodydd y BGC yn y dyfodol. | Gwyneth Ayers |
| Cyflwyno eitemau awgrymedig i Gwyneth Ayers ar gyfer agenda cyfarfod rhanbarthol nesaf y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. | PAWB |
| Trefnu cyfarfod â Chyfarwyddwr yr Amgylchedd, y Pennaeth Cynllunio a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i drafod buddsoddiad gan y sector preifat yn ymwneud â cheisiadau cynllunio. | Gwyneth Ayers |

| 3. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Bentref Llesiant a Gwyddor Bywyd Llanelli |
|---|

- Rhoddodd Steffan Jenkins, Rheolwr Datblygu Economaidd y Cyngor, y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect, dosbarthodd gynllun a oedd yn dangos y gwahanol elfennau a dangosodd fideo a oedd yn dangos y safle o'r awyr. Mae'r prosiect hwn, a fydd yn costio £200 miliwn, yn un o 11 prosiect yn rhaglen y Fargen Ddinesig a bydd yn derbyn £40 miliwn o'r cyllid. Mae cyflawni'r prosiect yn dibynnu ar fuddsoddiad gan y sector preifat.
- Cyflwynwyd yr achos busnes i Lywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Ganolog ym mis Awst 2018 a disgwylir penderfyniad yn fuan iawn.
- Mae gwaith yn parhau ym maes sgiliau a hyfforddiant, dan arweiniad Prifysgol Abertawe, ac mae cyrsiau, lleoliadau a chyfleoedd am swyddi yn cael eu mapio. Bydd Prifysgol Abertawe yn darparu cyrsiau israddedig ac ôl-raddedig o'r Pentref a bydd 60 o gyrsiau presennol sy'n cyd-fynd â'r Pentref yn cael eu darparu gan Goleg Sir Gâr.
- Cyflwynwyd cais cynllunio amlinellol ym mis Mawrth 2018. Disgwylir y bydd y cais hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio cyn diwedd Rhagfyr 2018.
- Dylai'r ddau brif adeilad gael eu defnyddio erbyn Medi 2021.
- Eglurwyd y bydd ysgol Heol Goffa yn symud ychydig i'r gogledd o'r safle.
- Mewn ymateb i gwestiwn gan Rob Quin yn ymwneud â'r ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i gyfleoedd gwaith a hyfforddiant i bobl leol yn ystod y cam adeiladu, cadarnhaodd Steffan fod strategaeth glir o ran budd i'r gymuned. Mae darpariaeth ar gyfer tua 50% o'r gadwyn gyflenwi leol o Dde Cymru a 25% o'r ardal yn union gerllaw yn y gwaith o adeiladu'r ddau brif adeilad a'r seilwaith. Nodwyd mai hwn oedd y bwriad ond codwyd pryderon na fyddai hyn yn bosibl efallai yn dibynnu ar yr ymateb i'r tendr. Dylai'r broses dendro fod yn hygyrch i fusnesau bach a chanolig, a gellid annog busnesau lleol i gydweithio. Dywedodd Steffan Jenkins fod disgwyl mai busnesau lleol fyddai'r prif gontractwyr ar gyfer y cynlluniau llai. Cadarnhaodd y Cynghorydd Dai Jenkins fod cymorth yn ymwneud â phrosesau caffael ar gael ar gyfer busnesau bach a chanolig.
- Cyfeiriodd Ros Jervis at siarter gomisiynu a lofnodwyd gan Arweinwyr y Ddinas yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr a oedd yn mynnu bod unrhyw dendr a gyflwynwyd yn bodloni prawf gwerth cymdeithasol er mwyn dod â gwerth yn ôl i'r ddinas.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a oedd elfen o baratoi ar gyfer y dyfodol wedi'i chynnwys yn y prosiect, cadarnhaodd Steffan fod lle ehangu busnes a chyfleoedd eraill wedi cael eu galluogi ar y safle.
- Gofynnodd Jo Creasey pa ystyriaeth a roddwyd i leihau effaith amgylcheddol y prosiect. Cadarnhawyd bod materion cynaliadwyedd a'r effaith amgylcheddol wedi cael eu cynnwys yn y Cais Cynllunio Amlinellol ac y byddai cynlluniau trafnidiaeth a rheoli gwastraff yn cael eu datblygu.

| Y CAM GWEITHREDU | |
|---|---|
| Gwahodd Steffan Jenkins i'r cyfarfod 'Pobl a Lleoedd Ffyniannus' nesaf. | Jonathan Hancock |

| 4. Cynllun Ardal a Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru |
|---|

- Roedd llythyr gan y Comisiynydd Plant a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael ei anfon at Gadeiryddion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Ranbarthol ynghylch alinio gwaith y ddau Fwrdd hyn. Estynnodd Barry Liles groeso i Martyn Palfreman, Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol ac arweinydd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i'r cyfarfod. Cadarnhaodd Martyn fod y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol wedi ystyried y llythyr yn ei gyfarfod y bore hwnnw a'i fod yn awyddus i ymgysylltu â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Amlinellodd Martyn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a oedd yn gosod y fframwaith ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol, iechyd cymuned a llesiant ledled Cymru ac yn sefydlu'r Byrddau Partneriaeth Ranbarthol. Sefydlwyd ein Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ni, sy'n cwmpasu ardal Hywel Dda, ym mis Mai 2016, ar yr un pryd â'r BGC. Mae'r gwaith o integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal yn cael ei hyrwyddo ac mae gofynion o ran cyfuno cronfeydd. Cyfeiriwyd at y

tebygrwydd yn y ddeddfwriaeth a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a chan fod yr Asesiad Poblogaeth ar gyfer y Cynllun Ardal wedi'i gynnal ar yr un pryd â'r Asesiad Llesiant, cafodd yr ymgynghoriadau eu halinio.

- Roedd Martyn yn bresennol yng nghyfarfod rhanbarthol y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae wedi ymrwymo i weithio gyda swyddogion y BGC i sicrhau nad oes gorgyffwrdd o ran gwaith y ddau Fwrdd. Mae'r Cynllun Ardal yn cyfeirio at greu cysylltiadau strategol ac mae cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sef "Cymru Iachach", yn cyfeirio at rôl y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o ran mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd.
- Trafodwyd y meysydd cyffredin rhwng y ddau Fwrdd a'r Cynlluniau a dywedwyd efallai y bydd cyfleoedd i fwrw ymlaen â rhai o'r meysydd sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Llesiant, megis rhagnodi cymdeithasol, ymyrraeth gynnar, datblygu asedau cymunedol a chefnogi mentrau lleol. Efallai y bydd y Byrddau'n gallu cydweithio i ddarparu gwasanaethau mwy hygyrch.
- Cyfeiriodd Martyn at gais i'r 'Gronfa Trawsnewid', ac mae wedi bod yn cynnal trafodaeth â Byrddau eraill – Cefnogi Pobl a'r Bwrdd Cynllunio Ardal o ran camddefnyddio sylweddau i fapio nodweddion cyffredin a ffurfioli'r trefniadau adrodd.
- Cytunwyd y dylai'r Byrddau gydweithio i fanteisio i'r eithaf ar y gwaith ar themâu cyffredin.
- Cadarnhaodd Sarah Jennings fod y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn symud tuag at fod yn fwrdd cyflawni â chyllid sylweddol o £800 miliwn gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol ac awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.
- Mae angen egluro rôl y BGC a phenderfynyddion ehangach iechyd a chyfrifoldeb cyflawni y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol o ran iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cytunwyd i gynnal cyfarfod i drafod cydweithio rhwng y Byrddau, i'w fynychu gan Sarah Jennings, Marie Mitchell, Ros Jervis, Gwyneth Ayers a Martyn Palfreman. Byddai'r cynnig yn cael ei gyflwyno eto mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- Dywedodd Julian Atkins na chyfeirir at rôl yr amgylchedd naturiol a'r defnydd o fannau gwyrdd yn y Cynllun Ardal. Mewn ymateb dywedodd Martyn fod llinell niwlog o ran cyfrifoldeb y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedodd Ros Jervis fod y Fframwaith Iechyd a Llesiant sy'n cael ei ddatblygu yn cynnig ymagwedd system gyfan tuag at lesiant dros yr ugain mlynedd nesaf a bod cysylltiad agos iawn â'r amgylchedd.

| **Y CAM GWEITHREDU** | |
|---|---|
| Trefnu cyfarfod arall i ddatblygu cydweithio ymhellach rhwng rhaglenni gwaith y BGC a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. | Tîm Cymorth y BGC |

## 5. Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin - y wybodaeth ddiweddaraf

- Cadarnhaodd Gwyneth Ayers y bydd y grwpiau cyflawni i gyd wedi cwrdd erbyn diwedd mis Medi ac y byddant yn datblygu eu cynlluniau prosiect. Mae'r grwpiau yn amrywio o ran pa mor ffurfiol ydynt ac yn datblygu fel sy'n briodol ar gyfer eu hanghenion. Bydd adrodd ffurfiol gan y grwpiau cyflawni yn dechrau yng nghyfarfod y BGC ym mis Tachwedd, a hwn fydd cyfle cyntaf y BGC i weld sut y bydd y grwpiau yn cyflawni'r Cynllun Llesiant ac os bydd hyn yn bodloni gofynion y BGC.
- Amlinellodd Barry Liles y papur a oedd wedi'i gyflwyno o'r enw "Tasglu Caffael Bwyd Sir Gaerfyrddin". Y nod yw bod gwasanaethau cyhoeddus lleol yn sicrhau "difidend dwbl" – mynd i'r afael ag arferion iach a bwyta'n dda mewn ysgolion, a hefyd defnyddio llafur lleol a gwario punt Sir Gaerfyrddin yn Sir Gaerfyrddin.
- Y gobaith yw y bydd caffael lleol yn bosibl ac mae'r Athro Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd yn awyddus i gefnogi'r gwaith yn Sir Gaerfyrddin.
- Ystyriodd y partneriaid pwy ddylai fynychu'r gweithdai sydd wedi eu cynllunio.
- Cytunwyd y byddai'r Grŵp Cyflawni 'Pobl a Lleoedd Ffyniannus' yn goruchwylio'r prosiect.

| Y CAM GWEITHREDU | |
|---|---|
| Sicrhau bod aelod o'r BGC a swyddog caffael yn bresennol yng ngweithdy Tasglu Caffael Bwyd Sir Gaerfyrddin ar 18 Hydref yng Ngelli Aur. | PAWB |

## 6. System Llwyfan Ddigidol Ranbarthol

- Amlinellodd Kate Thomas gefndir datblygu'r system bwrpasol hon, a oedd wedi ei pharatoi gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a Sir Benfro. Byddai'r system o gymorth mewn perthynas ag asesiadau llesiant yn y dyfodol ac asesu perfformiad yn erbyn mesurau a'r Cynllun Llesiant. Byddai'r broses o gasglu data a dadansoddi'r data hwnnw yn cael ei gwella, byddai data allanol yn cael ei ychwanegu wrth iddo gael ei ddiweddaru a byddai'r holl ffynonellau data yn cael eu cadw gyda'i gilydd.
- Erbyn hyn gallai'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fwrw ymlaen i dendro ar gyfer datblygu a gweithredu'r system ac amcangyfrifir y bydd yn costio dros £50,000. Amlinellwyd cyfleoedd cyllido yn y papur.
- Roedd y papur wedi cael ei ystyried yng nghyfarfod BGC Ceredigion yr wythnos honno ac roedd y system wedi cael ei chefnogi gan gytuno ar yr argymhelliad y dylid cysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch cyllid. Cytunwyd i gydgysylltu â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol hefyd gan fod y Bwrdd hwnnw'n gwneud cais am arian o'r 'Gronfa Trawsnewid' yn fuan. Bydd BGC Sir Benfro yn trafod y papur yr wythnos nesaf.
- Siaradodd Rob Quin am bwysigrwydd rhannu gwybodaeth a chyfeiriodd at gyfarfod 'Uwchgynhadledd Galw' amlasiantaeth ar 16 Hydref ar gyfer ymarferwyr. Roedd nifer dda yn bresennol mewn cyfarfod blaenorol a chytunwyd y byddai cytundeb rhannu gwybodaeth ar raddfa fawr yn cael ei gwblhau. Roedd Rob wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr heddlu i symud hyn ymlaen i'r cam nesaf, sef y gweithdy ym mis Hydref. Byddai cynrychiolwyr o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru yn bresennol.
- Dywedodd Ros Jervis wrth yr Aelodau fod Bwrdd Rhaglen Llesiant ARCH wedi cytuno i greu porth data fel mater o flaenoriaeth.
- Cytunodd yr Aelodau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r System Wybodaeth Ddigidol ac y dylid gofyn i Lywodraeth Cymru ei chyllido gan y gellid ei defnyddio ledled Cymru.

| Y CAMAU GWEITHREDU | |
|---|---|
| Sicrhau cynrychiolaeth sefydliadol yng ngweithdy'r Uwchgynhadledd Galw ar gyfer rhannu gwybodaeth ar 16 Hydref ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Caerfyrddin. | PAWB |
| Cydgysylltu â Ros Jervis ynghylch y porth arfaethedig a gytunwyd gan Fwrdd Rhaglen Llesiant ARCH i sicrhau cysylltiadau â'r System Wybodaeth Ddigidol. | Jo Creasey |
| Cysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch cyllid ar gyfer y System Wybodaeth Ddigidol. | Kate Thomas |

## 7. Dyfarniad ac Ymgyrch y Rhuban Gwyn yn erbyn Cam-drin Domestig

- Rhoddodd Kate Thomas drosolwg o Ymgyrch y Rhuban Gwyn i roi terfyn ar drais gan ddynion yn erbyn menywod yr oedd llawer o bartneriaid yn gyfarwydd â hi gan eu bod yn nodi Diwrnod y Rhuban Gwyn ar 25 Tachwedd. Eleni, yn Sir Gaerfyrddin, roedd partneriaid wedi cael eu dwyn ynghyd mewn ymagwedd ar y cyd gan gynnwys darparwyr gwasanaethau cam-drin domestig a'r Prosiect Cymorth i Oroeswyr sy'n Fenywod o Gaerfyrddin.
- Mae'r Heddlu, y Gwasanaethau Tân ac Achub a'r Cyngor wedi derbyn statws 'y Rhuban Gwyn' am y ddwy flynedd nesaf. Y bwriad yw cynnal digwyddiad ar y cyd ym mis Hydref, a fydd yn cael ei arwain gan 'lysgenhadon' a enwebir gan y sefydliadau partner. Cafodd yr aelodau eu hannog i gefnogi a chynyddu ymwybyddiaeth o Ymgyrch y Rhuban Gwyn.

| Y CAMAU GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cysylltu â Kate Thomas os hoffai sefydliad gymryd rhan mewn hyrwyddo Ymgyrch y Rhuban Gwyn. | PAWB |
| Ystyried dod yn Llysgennad (dyn) neu'n Hyrwyddwr (menyw) y Rhuban Gwyn. | PAWB |

## 8. Y Gronfa Iach ac Egnïol

- Roedd gwybodaeth am y cyfle ariannu hwn gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei dosbarthu. Mae £5 miliwn ar gael dros dair blynedd. Mae angen i bob cais gyd-fynd â'r Cynlluniau Llesiant. Mae cysylltiadau â nifer o'n Grwpiau Cyflawni – Ymyriadau Cynnar, Arferion Iach a Chysylltiadau Cryf. Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Hamdden y Cyngor ddiddordeb mewn gwneud cais am y cyllid hwn. Cynhelir gweithdy briffio ynghylch y grant ar 4 Hydref. Bydd angen ymgysylltu'n eang â phartneriaid. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hysbysu ym mis Chwefror 2019.

## 9. Unrhyw Fater Arall

- Diolchodd Sarah Jennings i aelodau'r BGC am eu cyfraniad i'r ymgynghoriad ynghylch 'Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol’. Cadarnhaodd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn gwneud penderfyniad yn y cyfarfod ar 26 Medi ac y byddai rhagor o drafodaethau yn cael eu cynnal yn ystod ei gyfarfod ym mis Tachwedd mewn perthynas â'i ddull strategol o weithredu.

| | Crynodeb o'r Camau Gweithredu | Pwy | Y Wybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|
| | Camau gweithredu yn dilyn y cyfarfod 12 Gorffennaf 2018 | | |
| 1 | Nodi prosiectau sylweddol a allai elwa o gyllid fferm wynt Fforest Brechfa ac a fyddai'n helpu i gyflawni amcanion y Cynllun Llesiant, i'w hystyried yng nghyfarfod y BGC ym mis Tachwedd 2018. | **PAWB** | I'w drefnu unwaith bydd trefniadau'r gronfa rhanbarthol wedi ei eglurhau. |
| 2 | Gwahodd Aled Vaughan-Owen, swyddog datblygu cymunedol, i gyfarfod y BGC ym mis Tachwedd 2018 i drafod cynigion prosiect fferm wynt Fforest Brechfa. | **Tim Cymorth y BGC** | I'w drefnu unwaith bydd trefniadau'r gronfa rhanbarthol wedi ei eglurhau. |
| 3 | Dosbarthu gwybodaeth am y sesiwn datblygu rhanbarthol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, sef *'Datblygu Perthnasoedd Proffesiynol drwy Gydweithio ac Ymddiriedaeth'* sy'n cael ei gynnal gan Academi Wales ar 27 Tachwedd 2018 yn Y Llwyfan, Caerfyrddin. | **Gwyneth Ayers** | Wedi ei gwblhau. |
| 4 | Cytuno ar gynrychiolydd cyfathrebu i'w wahodd i gyfarfodydd y BGC yn y dyfodol. | **Gwyneth Ayers** | Wedi ei gwblhau. |
| 5 | Cyflwyno eitemau awgrymedig i Gwyneth Ayers ar gyfer agenda cyfarfod rhanbarthol nesaf y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. | **PAWB** | I'w drafod ar yr agenda. |
| 6 | Trefnu cyfarfod â Chyfarwyddwr yr Amgylchedd, y Pennaeth Cynllunio a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i drafod buddsoddiad gan y sector preifat yn ymwneud â cheisiadau cynllunio. | **Gwyneth Ayers** | Yn parhau. |
| 7 | Gwahodd Steffan Jenkins i'r cyfarfod 'Pobl a Lleoedd Ffyniannus' nesaf. | **Jonathan Hancock** | Yn parhau – dyddiad i'w gadarnhau. |
| 8 | Trefnu cyfarfod arall i ddatblygu cydweithio ymhellach rhwng rhaglenni gwaith y BGC a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. | **Tim Cymorth y BGC** | Cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer 22 Ionawr 2019. |
| 9 | Sicrhau bod aelod o'r BGC a swyddog caffael yn bresennol yng ngweithdy Tasglu Caffael Bwyd Sir Gaerfyrddin ar 18 Hydref yng Ngelli Aur. | **PAWB** | Wedi ei gwblhau. |
| 10 | Sicrhau cynrychiolaeth sefydliadol yng ngweithdy'r Uwchgynhadledd Galw ar gyfer rhannu gwybodaeth ar 16 Hydref ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Caerfyrddin. | **PAWB** | Wedi ei gwblhau. |
| 11 | Cydgysylltu â Ros Jervis ynghylch y porth arfaethedig a gytunwyd gan Fwrdd Rhaglen Llesiant ARCH i sicrhau cysylltiadau â'r System Wybodaeth Ddigidol. | **Jo Creasey** | |
| 12 | Cysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch cyllid ar gyfer y System Wybodaeth Ddigidol. | **Kate Thomas** | Wedi cysylltu gyda LlC ond dim cyllid ar gael. Y cynnig wedi ei gynnwys yn y cais Cronfa Trawsnewid – aros am ymateb. |
| 13 | Cysylltu â Kate Thomas os hoffai sefydliad gymryd rhan mewn hyrwyddo Ymgyrch y Rhuban Gwyn. | **PAWB** | Wedi ei gwblhau. |

| | Crynodeb o'r Camau Gweithredu | Pwy | Y Wybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|
| 14 | Ystyried dod yn Llysgennad (dyn) neu'n Hyrwyddwr (menyw) y Rhuban Gwyn. | **PAWB** | Wedi ei gwblhau. |